General
Medical
Council

# Crynodeb Blynyddol Sicrhau Ansawdd

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o sut mae sefydliad yn bodloni ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol fel y nodir yn *Promoting excellence: standards for medical education and training* ac *Assuring readiness for practice: a framework for the MLA*. Mae'n rhoi trosolwg o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd a gynhaliwyd dros gyfnod o flwyddyn a throsolwg o ganfyddiadau, gan gynnwys unrhyw feysydd ymarfer nodedig neu ofynion ac argymhellion rydym wedi'u gosod. Cyhoeddir y crynodeb.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd |
| **Cyfnod adolygu** | Mehefin 2025 – Mai 2026 (Blwyddyn 3 y cylch) |

## Trosolwg o'r canfyddiadau

| **Datganiad ar y canfyddiadau cyffredinol** |
|---|
| Yn sgil cyflwyno'r Holiadur Hunanasesiad (SAQ) a'r eglurhad ar rai pwyntiau yn ystod y cyfarfod SAQ, rydym o'r farn bod Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn cyrraedd y safonau a nodir yn *Promoting excellence: standards for medical education and training* y GMC.<br><br>Mae'r gweithgareddau sicrhau ansawdd rydym wedi'u cynnal yn y cylch blynyddol hwn wedi rhoi cyfleoedd i arsylwi ar sut mae Prifysgol Caerdydd yn bodloni ein safonau yn *Promoting excellence* ac yn dangos cydymffurfiaeth barhaus â'r Fframwaith ar gyfer yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA), sef *Assuring readiness for practice: a framework for the MLA* .<br><br>Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi nodi'r Amgylcheddau Rhithwir Rhyngweithiol Hybrid (HIVE) fel enghraifft o faes sy'n gweithio'n dda yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn erbyn Thema 1: Amgylchedd a diwylliant dysgu. |

The GMC is a charity registered in
England and Wales (1089278)
and Scotland (SC037750)

## Gweithgarwch ansawdd a gynhaliwyd

| | Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno'r SAQ | 29/07/2025 | Cafodd yr SAQ ei gyflwyno mewn pryd ac roedd yn ymdrin â phob un o'r pum thema yn *Promoting excellence*. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys rhestr o weithgareddau arfaethedig y gallem arsylwi arnynt at ddibenion sicrhau ansawdd.<br><br>Rydym yn fodlon, lle mae angen rhagor o wybodaeth a/neu eglurhad o hyd, y gellir darparu hyn adeg cyflwyno'r SAQ nesaf. |
| 2 | Cyfarfod adborth yr SAQ | 23/10/2025 | Cynhaliwyd y cyfarfod hwn i roi adborth i Brifysgol Caerdydd am yr SAQ a gyflwynwyd ganddi ar gyfer 2025/26, ac i ofyn am eglurhad a gwybodaeth ychwanegol am y cyflwyniad lle roedd angen.<br><br>Buom hefyd yn trafod y gweithgareddau sicrhau ansawdd posibl y gallem ymgymryd â nhw yn ystod y cylch blynyddol hwn. Dewiswyd y gweithgareddau hyn i wella ein dealltwriaeth o brosesau Caerdydd.<br><br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd risg yn ystod y cyfarfod SAQ.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod hwn, rhoddwyd adborth ysgrifenedig i Brifysgol Caerdydd ar yr SAQ a gyflwynwyd ganddi. |
| 4 | Arsylwi ar y CPSA | 06/05/2026 | Rydym bellach yn ymgorffori'r MLA yn y broses Sicrhau Ansawdd Rhagweithiol (PQA) a byddwn yn cynnal o leiaf un gweithgaredd ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr MLA ar gyfer pob ysgol feddygol bob blwyddyn.<br><br>Ymweliad wyneb yn wyneb â Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd oedd y gweithgaredd hwn, i arsylwi ar yr asesiad sgiliau clinigol a phroffesiynol (CPSA). Yn sgil arsylwi ar y gweithgarwch hwn, rydym wedi cael sicrwydd bod gofynion yr MLA yn cael eu bodloni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Arsylwi ar y Ganolfan Academaidd Meddygaeth Frys, yr Academi Dysgu ac Addysgu a'r Uned Arloesi Addysg ac Addysgu Digidol hybrid ym maes meddygaeth. | 06/05/2026 | Roedd Prifysgol Caerdydd wedi rhestru'r gweithgarwch hwn ar yr SAQ yn erbyn Thema 1: Amgylchedd a diwylliant dysgu.<br><br>Yn gyffredinol, rydym yn teimlo bod Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyfleoedd dysgu eithriadol i fyfyrwyr, yn seiliedig ar efelychu ac wedi'u cyfoethogi gan dechnoleg. Mae'r cyfleusterau a'r addysgu sy'n seiliedig ar efelychu yn galluogi'r myfyrwyr i ymarfer a mireinio sgiliau mewn amgylchedd rheoledig, diogel a chydweithredol. |

**Y System Adrodd ar Ansawdd (QRS)**

Rydym yn defnyddio'r QRS i fonitro pryderon a godir gan sefydliad pan fyddant yn canfod nad yw ein safonau'n cael eu bodloni mewn amgylchedd addysg a hyfforddiant. Caiff pryderon eu rheoli'n lleol gan y sefydliad cyfrifol hyd nes y cânt eu datrys. Rydym hefyd yn defnyddio'r QRS i fonitro gofynion ac argymhellion a bennir gan y GMC.

| Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
|---|---|---|
| Y System Adrodd ar Ansawdd (QRS) | Parhaus | Nid oes gan Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd unrhyw eitemau agored ar y QRS ar hyn o bryd.<br><br>Fodd bynnag, maent yn ymwneud â'r system QRS ac yn parhau i roi diweddariadau rheolaidd a manwl. Rydym yn dawel ein meddwl bod ein trothwyon ar gyfer adrodd drwy'r QRS wedi'u gwreiddio ac y cedwir atynt. |

**Meysydd sy'n gweithio'n dda**

Rydym yn nodi meysydd lle rydym wedi canfod bod ein safonau'n cael eu bodloni ond eu bod hefyd wedi'u gwreiddio'n dda yn y sefydliad.

| Rhif | Thema | Meysydd sy'n gweithio'n dda |
|---|---|---|
| 1 | Thema 1: Amgylchedd a diwylliant dysgu. | Fe wnaethom nodi bod yr Amgylchedd Rhithwir Rhyngweithiol Hybrid (HIVE) yn faes sy'n gweithio'n dda. Mae'n cynnig lleoliad diogel a rheoledig lle gall y myfyrwyr ddatblygu sgiliau rhesymu clinigol a sgiliau cyfathrebu gan ddefnyddio senarios ymgolli realistig a rhith gleifion â chefnogaeth deallusrwydd artiffisial. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r adnoddau hyn yn helpu i feithrin hyder a pharodrwydd cyn i'r myfyrwyr fynd ar leoliadau clinigol. Mae defnyddio realiti rhithwir ar gyfer anatomeg yn rhoi hwb pellach i ddealltwriaeth drwy gyfrwng archwilio rhyngweithiol a manwl.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dull hwn yn dangos defnydd cryf ac effeithiol o dechnoleg i gefnogi'r dysgu yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd. |

| Y camau nesaf |
|---|
| Mae adborth ysgrifenedig y GMC ar yr SAQ a gyflwynwyd yn 2025 yn rhestru unrhyw feysydd y mae angen i ni gael diweddariad arnynt yn yr SAQ nesaf a gyflwynir. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>**Thema un** – Sut mae'r weithdrefn gwyno i fyfyrwyr, a gafodd ei diweddaru i gael gwared ar jargon ac i wneud y broses yn fwy clir, wedi cael ei derbyn gan fyfyrwyr (LEC1-01); Diweddariad ar yr adolygiad o ymweliadau wyneb yn wyneb â'r Darparwr Addysg Lleol (LEP) (LEC1-01); Unrhyw ddiweddariad ar yr adborth a gafwyd ar ôl cyflwyno Pebblepad (LEC1-02); Diweddariad ar werthuso'r treial adborth ymateb cyflym (LEC1-06).<br><br>**Thema dau** – Unrhyw ddiweddariad ar recriwtio seicometregwr (EGL3-02).<br><br>**Thema tri** – Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cwestiynau ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu at werthusiadau lleoliadau i ofyn a yw'r myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi (SUL1-01); Sut mae proses weithredu'r cynlluniau adborth wedi'u diweddaru wedi mynd o ganlyniad i'r adolygiad o bolisi ac ymarfer asesu ac adborth (SUL1-04). |

## Ymateb y sefydliad

Mae gan y sefydliad hawl i ymateb i'r crynodeb hwn; os ydynt wedi ymateb, bydd yr ymateb yn cael ei gynnwys isod.

| Ymateb y sefydliad |
|---|
| Diolch am yr adroddiad. Rydym yn falch o weld bod y gwaith yng Nghaerdydd yn cael ei gydnabod fel gwaith sy'n cyrraedd y safonau gofynnol a'n bod yn datblygu meysydd newydd o arfer da. Mae diweddariadau wedi cael eu hychwanegu at yr SAQ fel y gofynnwyd uchod. Edrychwn ymlaen at groesawu tîm y GMC ar gyfer gweithgareddau ymweliadau ansawdd yn y flwyddyn academaidd newydd. |